

Diweddariad Heddlu'r MET

Gweithio gyda'n gilydd i leihau gwaith wedi cronni

gan Ian Johnston, Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu)

Mae DBS yn gweithio gyda Gwasanaeth Heddlu'r Metropolitan(MPS) i leihau'r ceisiadau wrth gefn sy'n achosi oedi i gwsmeriaid – yn bennaf yn ardal Llundain. Esbonia'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu) Ian Johnston pa gamau mae DBS yn eu cymryd i ddatrys hyn.

Mae llawer o ymgeiswyr yn profi oedi os oes rhaid gwirio'u cefndir gan MPS. Cydnabyddwn y gall oedi wrth ryddhau tystysgrifau arwain at anawsterau gwirioneddol i gwsmeriaid, felly rydym yn helpu'r MPS i weithio tuag at eu cynllun adfer i gynyddu staff a phrosesu pob cais o fewn y cyfnod byrraf posibl.

Rydym yn parhau i fod yn agored a thryloyw gyda'n rhwydwaith o gyrrff cofrestredig a'r cyhoedd am yr oedi o fewn MPS, a daliwn i gynnig diweddariadau ar y sefyllfa trwy ein gwefan. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i rai ymgeiswyr aros am tua 130 diwrnod. Er mai mater gweithredol i'w ddatrys gan MPS yw hwn, rydym yn gweithio'n agos, ar y lefel uchaf, i'w helpu i gyflawni ar eu cynllun adfer a chyrraedd eu hamserau targed ar gyfer cwblhau mor fuan â phosibl.

Rydym wedi cymryd nifer o gamau i gefnogi MPS yn eu hadferiad, gan gynnwys cynnig ein staff ein hunain i gefnogi hyfforddiant, yn ogystal â sefydlu a monitro Grŵp Rheolaeth Aur – sy'n cynnig ffocws cyson. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, rydym hefyd wedi annog MPS i gynnal adolygiadau cydradd gyda lluoedd sy'n perfformio i safon uchel ac wedi'u helpu i gynllunio sifftiau ychwanegol a gweithio dros y Sul i leihau eu gwaith wrth gefn.

Deallwn yr effaith ar gwsmeriaid ac mae'r mater hwn yn brif flaenoriaeth i'r DBS. Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda MPS i'w helpu i wella perfformiad a chefnogi eu hadferiad.

Yn genedlaethol, mae DBS yn prosesu mwy na phedair miliwn o geisiadau datgelu y flwyddyn – gyda thua 95% o'r rheiny yn cael eu gyrru'n ôl at gwsmeriaid o fewn wyth wythnos.

Mae mwyafrif llethol yr ymgeiswyr yn derbyn eu tystysgrifau mewn da bryd. Gallwch ddilyn hynt ceisiadau DBS gan ddefnyddio [tracio ar-lein](#).

Rhyddhau 1 (R1)

Cynllun newydd, dyddiadau newydd

gan Peter Evans, R1 Rheolwr Cyflawni

Os ydych yn gweithio'n agos gyda'r DBS, yn rhan o gorff cofrestredig, o heddlu lleol, yn geidwad cofrestr neu'n awdurdod goruchwyliol, rydych yn debygol o fod wedi'n clywed yn siarad am Rhyddhau 1 (R1). Mae Peter Evans, Rheolwr Cyflawni R1, yn esbonio'r newidiadau y bydd y prosiect yn eu cyflwyno

Wedi'u cyflawni mewn cydweithrediad â Tata Consultancy Services (TCS), mae R1 yn brosiect moderneiddio gwasanaeth fydd yn ein helpu i addasu i ateb anghenion cwsmer ac yn gam ar y ffordd i ni ddod yn gwbl ddigidol. Trwy R1, byddwn yn:

- dod â'n systemau mewnol ynghyd, yn disodli rhai o'n prosesau ar bapur ac yn cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd ar-lein
- gwella hygyrchedd trwy gynnig llwybrau cais a chyfeirio gwahanol i'n cwsmeriaid
- gweithio ar system ddigidol, fydd yn rhoi galluoedd cydweddu gwell i ni ac arwain at amserau cwblhau cyflymach

Byddwn yn cyflwyno'r gwelliant i wasanaeth R1 dros 3 chyfnod, gan ddechrau gyda'r elfennau gwahardd ym Medi 2016, ac yn dilyn hynny datgelu yn Nhachwedd 2016. Y cam olaf fydd trosglwyddo'r gwiriadau Sylfaenol o Disclosure Scotland i DBS yn Ionawr 2017. Bydd hyn yn gynnwys DBS newydd, fydd yn caniatáu i unigolion, cyflogwyr, a mudiadau cyfrifol o Loegr a Chymru geisio am ddatgeliad sylfaenol ar-lein.

Bydd R1 yn ein helpu i weithio'n fwy effeithiol, gan ddefnyddio'r sianelau digidol sy'n cael eu ffafrio gan ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Mae'r rhaglen yn garreg filltir o bwys yn ein gorchwyl i fod yn ganolfan rhagoriaeth i'r llywodraeth ar gyfer gwybodaeth cydweddu

Byddwn yn cysylltu â chi yn y dyfodol agos i ddweud wrthyf sut yn union bydd R1 yn effeithio arnoch a sut y gallwch gael y gorau o'n cynhyrchion a'n gwasanaethau gwell.

“Bydd ein ffurflen gyfeirio ar-lein newydd yn ffordd hawdd i rannu gwybodaeth yn gyflym a diogel, gan ein helpu i fod yn fwy effeithlon a gwella amseroedd cwblhau.”

Dawn Wayman, Pennaeth Newid (Gwahardd)

Gwella gwasanaeth R1 dros 3 chyfnod: elfennau gwahardd ym Medi 2016, a datgelu erbyn Tachwedd 2016. Y cam olaf yw'r newid o wiriadau Sylfaenol o Disclosure Scotland i DBS yn Ionawr 2017

Cyfarfod â'n partner

Tata Consultancy Services (TCS) yw partner cyflawni DBS ar gyfer prosiect R1. Mae Sharon Wagner, Cyfarwyddwr Rhaglen R1 yn TCS, yn siarad am bwysigrwydd dull cydweithredol mewn menter ar y raddfa hon

Rydym wedi gweithio gyda DBS ers 2013 i gynllunio a chyflawni prosiect R1. Credwn bod ein perthynas gydweithredol wedi'n galluogi i ddeall yn well yr heriau sy'n wynebu sefydliadau llywodraeth wrth weithredu rhaglen newid ar y raddfa hon, ac yn helpu i gynllunio ar gyfer ein llwyddiant tymor-hir.

Adeiladir ein hagwedd at greu'r ateb deinamig hwn gyda DBS ar egwyddorion ac ymarferion ymrwymiad ar y cyd i gyflawni gwasanaeth ardderchog. Fel ym mhob partneriaeth lwyddiannus, rydym wedi gweithio gyda'n gilydd i rannu gwybodaeth a phrofiad i oresgyn natur gymhleth gweithredu technegol yn aml, gan ddal yn ymrwymedig i ymddiriediaeth a chael y canlyniadau gorau posibl.

Gwella Gwasanaeth Cwsmer

Cyflawni rhagoriaeth gan Suzanne Gordon, Pennaeth Gwasanaethau Cwsmer ac Archwiliadau

Gwahoddwyd ein Pennaeth Gwasanaeth Cwsmer ac Archwiliadau, Suzanne Gordon, i siarad a rhannu ymarfer gorau ym mhedwaredd Cynhadledd flynyddol Trafod Cwynion mewn Llywodraeth Leol yn Ionawr. Dywed Suzanne fwy wrthym

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf mae DBS wedi bod ar daith gyffrous tuag at achredu Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE), a fu'n uchel ar yr agenda ar hyd yr amser – un o'n nodau corfforaethol wedi'r cyfan yw, "cyflawni gwasanaeth cwsmer rhagorol". Fel sefydliad cymharol newydd (daeth y Criminal Records Bureau a'r Independent Safeguarding Authority ynghyd yn 2012 i ffurfio DBS), roedd gennym lawer o waith i'w wneud – mewn rhai ffyrdd yn dechrau o'r dechrau – i fod yn y man y dymunem fod, yn gyfym.

Cael y prosesau cywir yn eu lle ar draws meysydd gweithredol a chefnogol y sefydliad oedd llawer o hyn. Ond roedd rhan fawr hefyd ynglŷn â chyrraedd allan i fagu dealltwriaeth o'r cwsmer ac yna adeiladu diwylliant sy'n cofleidio cyflawni gwasanaeth ac yn rhoi'r cwsmer gyntaf. Rydym wedi gwneud gwaith enfawr i adeiladu a sefydlu hyn, o ymgysylltu â'n staff i ddiffinio'n gwerthoedd, i neilltuo amser i ddathlu Wythnos Genedlaethol Gwasanaeth Cwsmer, a chydabod y gwaith gwych a wnawn ar gyfer cwsmeriaid trwy'n Gwobrau Balchder DBS ein hunain.

Buom yn ffodus iawn i weithio ochr yn ochr â'r Sefydliad Gwasanaeth Cwsmer, sydd wedi'n rhoi mewn cysylltiad â llawer o sefydliadau o safon uchel ar draws y DU – o Nwy Prydain i gymdeithasau tai lleol– sydd wedi dysgu cymaint i ni.

Felly, yn Ionawr, roedd Adolygydd Cwynion Annibynnol DBS, Gillian Fleming a minnau wrth ein bodd yn siarad â nifer o gynrychiolwyr llywodraeth leol am yr hyn a ddysgom ar y daith hon a rhannu'r ymarfer gorau a ddatblygwyd gennym dros amser. Codasom hefyd syniadau gwych fydd yn ein helpu i fynd yn bellach fyth.

Os hoffech wybod mwy am ddull DBS i CSE neu drafod cwynion, ebestiwch customerexperienceteam@dbs.gsi.gov.uk

“Roedd hi'n wych cyfarfod â phobl o sefydliadau gwahanol a sectorau gwahanol a chael y cyfle i rannu yr hyn a wnaethom yn DBS i wella trafod cwynion, yn ogystal â chlywed am ymarfer gorau gan sefydliadau eraill.”
Gillian Fleming, Adolygydd Cwynion Annibynnol DBS

Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer DBS, Ebrill 2016

Llynedd, cynhaliom ein Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer cyntaf, ar y cyd ag Ipsos MORI. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi defnyddio'ch adborth i wella'n gwasanaeth a gwella'ch taith cwsmer gyda ni. Er enghraifft, rydym wedi:

- gwella'n strategaeth gyfathrebu i fod yn fwy tryloyw am ein gwaith gyda lluoedd
- gwneud ein llythyrau gwahardd yn haws i'r darlennydd wrth symleiddio'r iaith gyfreithiol
- cyflwyno tîm archwilio i helpu cwsmeriaid sydd ag angen cefnogaeth gyda gwiriadau DBS a fu ar waith ers peth amser
- adolygu a gwneud newidiadau i'n dull o recriwtio a hyfforddi staff gwasanaeth cwsmer
- mabwysiadu hyfforddiant newydd ar gyfer tîmau wynebu cwsmer, a gwneud newidiadau i'n gwasanaethau technegol, i wella'ch profiad

Mae hyn yn fan cychwyn gwych, ond rydym yn awyddus i wneud yn well, felly byddwn yn dod atoch yn Ebrill ar gyfer ail ran yr arolwg. Rydym yn wirioneddol yn gwerthfawrogi eich adborth am ein gwasanaeth – ac rydym yn gweithredu ar yr hyn a ddywedwch wrthym.

Mae cymryd amser i rannu'ch barn yn werthfawr iawn, felly os ydych yn un o'r cwsmeriaid a ddewiswyd ar hap yn Ebrill, a fyddech gystal â chymryd 10 munud i adrodd eich profiad i ni.

Os hoffech wybod mwy neu os oes gennych gwestiynau, ebostiwch customerexperienceteam@dbs.gsi.gov.uk

Cyfarwyddyd y We

Gwell cynnwys – unrhyw bryd, unrhyw le

Gan Amanda McMahon, Rheolwr Cynnwys Digidol

Rydym wedi gwneud llawer o waith yn ddiweddar i sicrhau bod cynnwys GOV.UK yn gwella'n barhaus i gyfarfod â'ch anghenion. Mae'n Rheolwr Cynnwys Digidol Amanda McMahon yn esbonio

Efallai eich bod wedi sylwi bod ein cyfarwyddyd gwe yn raddol yn cael ei newid o PDF i dudalennau gwe. Mae hyn yn rhan o gynllun ehangach ar draws llywodraeth i wneud ein cynnwys yn haws i'w ddarllen ar draws dyfeisiadau gwahanol. Felly, wrth ddefnyddio ffôn clyfar neu gyfrifiadur ar ddesg, byddwch yn gallu cael mynediad at ein cynnwys mewn ffordd hawdd i'w ddeall, safonol, heb orfod lawrlwytho dogfennau PDF. Mae newid cynnwys i dudalennau gwe hefyd yn helpu chwilotwyr i ddod o hyd i'r cynnwys yr

ydych yn chwilio amdano, sy'n golygu y cewch y wybodaeth yr ydych yn chwilio amdani yn gynt.

Yn ogystal â newid fformat y cynnwys, rydym hefyd yn gwella siap ein safle. Gallwch ddod o hyd yn awr i holl gyfarwyddyd gwirio a gwahardd DBS o un ddolen yn yr [hafan](#):

- [cyfarwyddwyd am wiriadau DBS](#)
- [cyfarwyddyd am atgyfeiriadau gwahardd](#)

Mae'r cyfarwyddyd wedi'i rannu fesul pwnc a math defnyddiwr i'w wneud yn gliriach ac yn fwy perthnasol i'ch anghenion.

Dweud eich dweud

Mae gan bob tudalen gwe GOV.UK ddolen ar y gwaelod or enw 'Oes rhywbeth o'i le ar y dudalen hon?' Gallwch ddefnyddio'r nodwedd hwn i gynnig adborth yn ddiennw am gynnwys GOV.UK. Byddwn yn defnyddio'ch awgrymiadau i barhau â'n gwaith gwella gwe.

Os yn defnyddio ffôn clyfar neu gyfrifiadur ar ddesg, byddwch yn gallu cael mynediad at ein cynnwys mewn ffordd hawdd i'w ddeall, fformat safonol, heb orfod lawrlwytho dogfennau PDF.

Gwneud atgyfeiriad gwahardd

Derbyniwn gyfanswm uchel o atgyfeiriadau gwahardd heb ddogfennaeth briodol neu dystiolaeth mewn perthynas â'r honiadau a wneir. Esbonia Ruth Williamson, Arweinydd Tîm Gwahardd pam mae'n bwysig i sicrhau y cyflwynwch y wybodaeth gywir yn brydlon

Mae DBS yn dibynnu ar wybodaeth a dderbynnir gan sefydliadau atgyfeiriol a thrydydd partïon. Heb hyn, mae'n bosibl na fydd gennym dystiolaeth ddigonol i wneud penderfyniad gwahardd.

Pan dderbyniwn atgyfeiriad gwahardd heb yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom i symud yr achos yn ei flaen, mae'n rhaid i ni ysgrifennu at y parti atgyfeiriol i geisio'r dogfennau perthnasol. Gall y broses hon gymryd amser maith a chaiff effaith fawr ar amseroedd cwblhau penderfyniad gwahardd – gan beryglu o bosibl poblregus.

Os ydych yn gwneud atgyfeiriad gwahardd, a fydddech gystal â sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'n [ffurf a chyfarwyddyd](#), sy'n cynnwys yr holl ddogfennaeth **y mae'n gyfreithiol ofynnol i chi** eu darparu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, galwch ein llinell gymorth ar 01325 953795 a byddwn yn eich arwain trwy'r broses.

Gwneud yn fawr o'r gwasanaeth diweddarau

Gan Linda Hackett, Cynghorydd Polisi

Mae gan gyrrff cofrestredig (RBs) ran i chwarae mewn sicrhau bod unigolion a chyflogwyr yn gallu defnyddio'r [gwasanaeth diweddar](#) i'r eithaf. Mae Linda Hackett, Cynghorydd Polisi, yn siarad am ddyletswyddau a chyfrifoldebau DBS

Mae'n rhaid i'r holl RBs gydymffurfio â'r [côd ymarfer](#) wrth gyflwyno ceisiadau cymwys yn unig i DBS. Mae Adran X o ffurflen gais DBS yn pennu pa weithlu a lefel gwiriad mae'r ceisydd yn gymwys ar ei gyfer, yn unol â'r swyddogaeth y ceisiant amdani. Nid ydym yn gallu diwygio ffurflenni cais sydd â lefel amhriodol o wiriad neu geisiadau anghywir ar gyfer gwybodaeth rhestr waharddedig. Mae'n rhaid cwblhau'r adran hon ar bob ffurflen gais, a chyfrifoldeb y RBs yw eu cywirdeb – nid y ceisydd.

Cofiwch, hyd yn oed os yw'r ceisydd yn rhoi caniatâd i wneud gwiriad statws, nid yw'n benderfyniad i'r ceisydd i "ganiatáu" i'r cyflogwr wneud gwiriad statws ar y gwasanaeth diweddar, os yw lefel y gwiriad sy'n gymwys ar gyfer y swyddogaeth yn wahanol i lefel y gwiriadau y gofynnwyd amdanynt ar y dystysgrif wreiddiol.

“Mae'r gwasanaeth diweddar yn ddefnyddiol iawn i weithwyr dros dro sy'n symud rhwng cyflogwyr ac asiantaethau. Ar y cyfan cawsom y dogfennau cyfarwyddyd DBS amrywiol yn ddefnyddiol iawn a bydd unrhyw beth y gellir ei wneud i wella'r wybodaeth sydd ar gael o fudd mawr i geiswyr a chyflogwyr, yn enwedig mewn perthynas â cheiswyr yn meddu ar dystysgrifau gweithlu plant ac oedolion ar y cyd.”
Lorraine Laryea, ar ran Confederasiwn Recriwtio a Chyflogaeth

Cyfarwyddyd gwasanaeth diweddar Gwneud yn haws i chi wirio'ch statws

Gwyddom o'ch adborth bod rhai elfennau o'r gwasanaeth diweddar yn gallu bod yn gymhleth, yn enwedig lle mae gan geiswyr dystysgrifau gweithlu plant ac oedolion ar y cyd. Rydym wedi bod yn gweithio ar hyn i egluro rhywfaint o'r wybodaeth a'i gwneud yn haws i chi gyfeirio ati. Bydd hyn hefyd yn eich helpu i esbonio i ddarpar weithwyr pam na allech wneud cais statws ar y gwasanaeth diweddar, hyd yn oed pan maen nhw wedi rhoi caniatâd i wneud hynny.

Rydym wedi adolygu'r gwasanaeth diweddar yn ddiweddar ar gyfer cyflogwyr, i egluro ble a pham y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth diweddar i wirio gwybodaeth dystysgrif. Ymhlith y newidiadau a wnaethom mae:

- enghreifftiau sy'n dangos sut y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth diweddar yn fwy effeithiol
- newidiadau i fformat [o PDF i dudalen gwe](#), i'w gwneud yn haws i chi ei ddarllen ar amrywiaeth o ddyfeisiadau
- newidiadau i'r cyfarwyddyd ceisydd, i egluro pa wybodaeth a ddangosir i'r rheiny sy'n gwneud gwiriad statws

Deallwn y gall fod yn anodd darllen trwy ddeddfwriaeth, felly rydym hefyd yn datblygu siart llif i'ch helpu gyda hyn, a chaiff ei lansio'n fuan.

Cymerwch amser i ddarllen ein [cyfarwyddyd newydd](#), ac os credwch bod unrhyw beth arall y gallwn ei wella, rhowch wybod i ni. Gallwch ddefnyddio'r ddolen ar waelod pob un o'n tudalennau gwe i gynnig adborth yn ddiennw am unrhyw gynnwys GOV.UK, gan gynnwys cyfarwyddyd.

Gwiriadau DBS a gwiriadau hawl i waith

Gan Helen Chandler, Pennaeth Dros Dro Datblygu Polisi

Ymgwymerodd Gorfodi Mewnffudo'r Swyddfa Gartref yn ddiweddar ag ymgyrch i archwilio gweithio anghyfreithlon ar draws y sector gofal. Mae Helen Chandler, Pennaeth Dros Dro Datblygu Polisi yn DBS, yn esbonio'r canlyniadau a pham mae'n bwysig i gyrff cofrestredig (RBs) gynnal gwiriadau 'hawl i waith'.

Datgelodd yr ymchwiliad dystiolaeth bod rhai cyflogwyr wedi derbyn dogfennau ffug ar gyfer gwiriadau 'hawl i waith'. Defnyddiwyd y dogfennau hyn ymhellach i gael gwiriadau DBS. Mae hyn yn codi materion diogelu a dylai hynny atgoffa RBs i fod yn wylidwrs.

Fel cyflogwyr, mae gennym oll ddyletswydd i atal gweithio anghyfreithlon yn y DU. Wrth gynnal gwiriadau dogfen effeithiol, gallwn ei gwneud yn anoddach i bobl sydd yn y DU yn anghyfreithlon ac sy'n ceisio gweithio yn anghyfreithlon. Mae hyn hefyd yn ein caniatáu i gael hyder mwy ar hunaniaeth pobl sy'n ceisio am waith

Gwiriadau 'hawl i waith'

Er mwyn cynnal [gwiriad 'hawl i waith'](#), mae'n rhaid i chi dderbyn dogfen a restrir yn y cyfarwyddyd 'hawl i waith' yn unig. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn cyflogi person, i sicrhau eu bod yn cael gwneud y gwaith dan sylw yn gyfreithlon. Mae gofyn i chi gynnal ail wiriad ar bobl sydd â chaniatâd o fewn terfyn amser i weithio yn y DU.

Mae GOV.UK wedi sefydlu [offeryn ar-lein](#) i'ch helpu i ganfod os oes gan ddarpar weithiwr hawl i weithio yn y DU a pha ddogfennau y dylech eu gwirio. Mae ganddynt hefyd gyfarwyddyd defnyddiol i'ch helpu i adnabod [dogfennaeth dwyllodrus](#).

Cofiwch, nid yw gwiriad DBS yn ddogfen dderbyniol i ddangos caniatâd i weithio ac ni ddylai gael ei ddefnyddio i sefydlu os oes gan berson hawl i wneud hynny. Yn ddiweddar rydym wedi diweddarau rhywfaint o'n cyfarwyddyd i egluro nad yw cynnal gwiriad DBS yn cadarnhau hawl unigolyn i waith yn y DU. Mae pob gwiriad DBS yn cario'r neges hon.

Atal cyflogi anghyfreithlon

Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yng Ngorfodaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref i adnabod pa fesurau eraill y gallwn osod i rwystro pobl heb ganiatâd i weithio yn y DU rhag cymryd swyddogaethau sydd angen gwiriadau DBS. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon â chi cyn gynted ag y bydd ar gael.

Yn y cyfamser, parhewch i fod yn wyladwrus wrth wirio dogfennau a chadwch mewn cof yr angen i gynnal gwiriadau 'hawl i waith'.

Wrth gynnal gwiriadau dogfen effeithiol, gallwn ei gwneud yn anoddach i bobl sydd yn y DU yn anghyfreithlon ac yn ceisio gweithio'n anghyfreithlon.

Cadw'n ddiogel wrth chwilio am swydd

Mae [SAFERjobs](#) (Safe Advice for Employment and Recruitment) yn sefydliad dielw, diwydiant a gorfodaeth gyfreithiol ar y cyd a sefydlwyd gan Heddlu'r Metropolitan yn 2008. Mae'n gweithio i godi ymwybyddiaeth o dwyll recriwtio ac atal gweithgareddau troseddol a gyflawnir gan gyflogwyr twyllodrus. Mae SAFERjobs wedi cyhoeddi cyngor i geiswyr swyddi sy'n amau bod cais am wiriad heddlu yn dwyllodrus. Gallwch ddarllen mwy am hyn [ar eu gwefan](#) ac adrodd am unrhyw weithgaredd recriwtio amheus.

Côd ymarfer

Newidiadau ar gyfer RBs

Gan Mike Blakemore, Pennaeth Rheoli RB

Diweddarwyd DBS [Côd Ymarfer](#) yn Nhachwedd 2015 ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae Mike Blakemore, Pennaeth Rheoli Corff Cofrestredig (RB) yn DBS, yn esbonio beth mae hyn yn ei olygu i gyrff cofrestredig (RBs)

Os ydych ynghlwm â phrosesu gwiriadau DBS mae'n bosibl eich bod yn gwybod yn barod bod dyletswyddau datgelu'n cael eu hamlinellu yn Rhan V the Police Act 1997. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn datgan bod gofyn i'r RBs ddilyn y côd ymarfer. Mae'r côd ymarfer yn gymwys i bob RB, gan gynnwys cyrff ymbarel o'r DBS a derbynwyr gwybodaeth [gwasanaeth diweddarau](#), dan adran 116A Police Act 1997.

O Fawrth 2016, byddwn yn ymweld â RBs i gynnal archwiliadau cydymffurfio yn erbyn y côd ymarfer. Cyn ein hymweliad, bydd gofyn i chi gwblhau hunan-asesiad a chynnig tystiolaeth bod eich polisïau a gweithdrefnau yn cydymffurfio gyda'r côd ymarfer. Gallai DBS gymryd camau i atal y rheiny sy'n methu â chydymffurfio â'u rhwymedigaethau yn unol â'r côd ymarfer. Yn dilyn yr asesiad, byddwn yn rhannu adroddiad i'r prif arwyddwr, yn cofnodi meysydd cydymffurfiol ac anghydymffurfiol. Byddwn hefyd yn cytuno ar ac yn monitro cyllun gweithredu cywirol, yn ôl y gofyn, ac yn eich cefnogi i gyrraedd lle y mae gofyn i chi fod.

Fe gysylltw'n gyda mwy o fanylion yn fuan, ond os hoffech wybod mwy yn y cyfamser, ebostiwch rbmanagement@dbs.gsi.gov.uk

Cyfranogiad NCVYS

Y mis diwethaf, cynhaliodd Cyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol (NCVYS) ymgyrch #StopLookListen16 ar Ddiwrnod Cenedlaethol Diogelu. Mae #StopLookListen yn ddigwyddiad blynyddol i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu pobl bregus. Mae'n annog mudiadau hefyd i weithredu ymarferion diogelu. Dywedodd Lorraine Mulholland, Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau Gwahardd:

“Mae DBS yn cymryd diddordeb byw mewn cynlluniau sy'n codi ymwybyddiaeth o ddiogelu ac yn anelu at wneud hyd yn oed mwy i warchod plant ac oedolion bregus. Mae Diwrnod Cenedlaethol Diogelu yn gyfle gwych i sefydliadau ar draws y DU neilltuo ychydig amser pob blwyddyn i rannu ymarfer gorau a chreu perthnasau ystyrlon. Yn yr un modd, mae'n amser da i sefydliadau ystyried eu dyletswyddau a'u rhwymedigaethau, yn ogystal ag adolygu cyfarwyddyd neu bolisi diogelu. Gyda'n partneriaid a rhwydweithiau fel NCVYS, rydym yn gweithio'n ddi-baid i ddod â diogelu i frig yr agenda – pob dydd”. i gael gwybod mwy, ewch i [wefan NCVYS](#).